

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2022

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2022.

Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

10 Chwefror 2022

1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu [Rheoliadau Diogelu Iechyd \(Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol\) \(Cymru\) 2020](#) ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") ac yn disodli'r gofynion ynddynt. Mae'r Rheoliadau hyn yn cydgrynhai ac yn symleiddio'r sefyllfa ddeddfwriaethol.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dod i rym

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd nad yw'r Rheoliadau yn cydymffurfio â'r confensiwn 21 o ddiwrnodau. Mae hyn yn angenrheidiol oherwydd y risg a berir mewn perthynas â'r coronafeirws ac yn enwedig straeniau sy'n amrywiolion o'r feirws hwnnw, oddi wrth deithwyr sy'n teithio i'r DU. Mae'r newidiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn parhau â'r ymagwedd gyffredin ar draws y pedair gwlad mewn perthynas â theithio rhyngwladol, ac yn sicrhau bod y cysondeb â Lloegr a'r gwledydd eraill yn parhau.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ymwneud â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984"), a rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Gwneir y Rheoliadau drwy ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B, 45C, 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf 1984. Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y [Rheoliadau Teithio Rhyngwladol](#) yn rhoi rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn.

4. Diben y deddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, ac yn cael effaith o 04:00 ddydd Gwener 11 Chwefror ymlaen. Mae'r Rheoliadau hyn yn newid ac yn cydgrynhai'r gofynion a nodwyd yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Y newidiadau allweddol yw bod y Rheoliadau hyn yn:

- Ychwanegu 16 o wledydd at y rhestr o raglenni brechu cydnabyddedig ac yn gwneud darpariaeth drosiannol ar gyfer pobl sy'n ynysu yng Nghymru sydd wedi eu brechu yn y gwledydd hynny (caiff y bobl hyn roi'r gorau i ynysu);
- Newid y gofynion profi ac ynysu ar gyfer teithwyr sy'n cyrraedd, gan olygu'r canlynol:

- Ni fydd yn ofynnol i “deithwyr cymwys” (sy’n cynnwys pobl sydd wedi’u brechu’n llawn a phobl ifanc o dan 18 mlwydd oed) gymryd unrhyw brofion (nac, yn unol â’r sefyllfa bresennol, ynysu ar ôl cyrraedd);
- Ni fydd yn ofynnol i bobl nad ydynt yn deithwyr cymwys a ddechreuodd eu taith y tu allan i’r ardal deithio gyffredin ynysu ar ôl cyrraedd Cymru. Bydd yn ofynnol o hyd iddynt gymryd prawf cyn-ymadael a phrawf diwrnod 2;
- Bydd rhaid i achosion positif ynysu yn unol â gofynion Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020;
- Newid yr amser ar gyfer llenwi ffurflen lleoli teithwyr i ddim mwy na 3 diwrnod cyn i berson gyrraedd Cymru;
- Newid yr wybodaeth ofynnol ar ffurflen lleoli teithwyr;
- Newid esemptiadau ar gyfer teithwyr sy’n cyrraedd o ran gofynion i lenwi ffurflen lleoli teithwyr a gwneud profion.

Mae’r Rheoliadau hyn hefyd yn dirymu Rhan 3 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Hysbysu) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021. Mae hyn yn dychwelyd Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) (Cymru) 2010 i’r sefyllfa fel yr oedd cyn y diwygiadau a wnaed gan Ran 3. Felly, rhaid i labordai preifat adrodd canlyniadau COVID-19 (gan gynnwys dilyniannu genomig) a’r ffliw i swyddog priodol yr awdurdod lleol.

Mae Gweinidogion Cymru o’r farn bod y diwygiadau hyn yn gymesur â’r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb i’r bygythiad a berir nawr i iechyd y cyhoedd.

5. Ymgynghori

Oherwydd y bygythiad newidiol sy’n deillio o’r coronafeirws a’r angen i’r ymateb iechyd y cyhoedd gyd-fynd â’r sefyllfa wrth iddi newid, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn.

6. Aseiad Effaith Rheoleiddiol

Ni chynhaliwyd aseiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i’w rhoi ar waith ar frys er mwyn ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.